**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 15 Fehefin 2021 drwy**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Meirwen Lloyd, Haf Williams, Phillip Roberts, Iola Parry, Beca Brown

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Cemlyn Jones, Martin Jones, Richard Robinson, Alan Pritchard

**Clerc:** Meirion Jones

**820. I ethol cadeirydd ar gyfer Cyngor Cymuned Llanrug ar gyfer 2021/2022 yn unig neu am 2021/2022 a 2022/2023**

Bydd yr aelodau yn cofio ni etholwyd cadeirydd i'r cyngor yn ei gyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 18 o Fai 2021. Mae'n rhaid nodi mai hwn ydi'r unig dasg sydd yn oblygiad cyfreithiol mae'n rhaid i'r cyngor ei wneud yn ei gyfarfod blynyddol. Mae popeth arall yn eilradd. Mae hyn yn unol a Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a15(2) a 34(2).

Mae Adran 88 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi pan mae swydd cadeirydd yn dod yn wag yna mae'n ofynnol cynnal etholiad i lenwi'r sedd ddim hwyrach na cyfarfod nesaf y cyngor, felly dyma pam mae hwn yn eitem cyntaf ar yr agenda.

**Penderfynwyd:** Etholwyd y Cynghorydd Hefin Jones fel cadeirydd y cyngor ac fe arwyddodd ei ddatganiad o dderbyn swydd.

**821 I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**822. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**823. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**823. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Mai 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**824. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd fod angen cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a penderfynwyd ei gynnal ar 22/6/2021 yn y Sefydliad Coffa ac ar 24/6/2021 drwy Zoom

**825. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa'r aelodau o'r drefn a fabwysiedi'r gan y cyngor i ymdrin a beddau / cerrig beddi sydd angen sylw**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones fod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod i drafod y sefyllfa bresennol parthed y drefn o ddiogelu'r fynwent. Nodwyd fod y gwaith o roi polyn tu ôl i gofeb roedd wedi ei adnabod fel un a roedd wedi methu'r prawf wedi ei ddal yn ôl oherwydd trafferthion cael gafael ar ddigon o bolion.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**826. I benderfynu ar y ffordd i lansio system chwilio'r fynwent yn swyddogol i'r cyhoedd**

Adroddwyd fod y system i chwilio ar lein am fanylion beddi bron iawn wedi ei gwblhau ond fod angen symud un rhes yn nes at y llwybr. Roedd y rhaglennwyr yn ymwybodol o hyn. Gofynnwyd i'r cyngor ystyried gwahanol ffurf i lansio'r wefan a'i hysbysebu.

**Penderfynwyd:**

- Cytunwyd i holi'r BBC os byddai ganddynt hwy ddiddordeb,
- adnabod diwrnod lansio fel 1af o Orffennaf 2021 am 7:00yh
- Cysylltu a'r Gymdeithas Henaduriaid
- Cynghorau Tref a Chymuned Gwynedd a Môn
- Ar wefan a cyfrif Facebook y cyngor

**827. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyngor Gwynedd**

**Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Adroddiad ar yr uchod wedi dod o flaen y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ddiweddar. Mae'r ddeddf yn bellgyrhaeddol, ac mae rhaglen waith wedi ei greu. Ymysg y pethau fydd angen ei cysidro yw:-

1. Disgwylir i'r Awdurdodau Lleol yn y Gogledd weithio yn fwy agos gan greu cyd-bwyllgorau i edrych yn strategol dros y Gogledd
2. Bydd angen edrych ar sut mae Cynghorau Cymuned a'r Cyngor Sir yn mynd i gydweithio hefyd.
3. Posibilrwywdd y bydd etholiadau am gynghorwyr sir yn newid gyda symudiad tuag at cynrychiolaeth gyfrannol (STV).

Fel mae'r rhaglen waith yn mynd yn ei flaen fe wnaf eich diweddaru.

**Cynllun Datblygu Lleol**

Bydd adolygiad llawn o'r cynllun yn cymryd lle, gan ddechrau yr hâf yma. Mi fydd yn cymryd 3 blynedd a hanner i gwblhau y gwaith. Llawer o newidiadau wedi bod ers cyhoeddi y cynllun gwreiddiol, yn enwedig yn y maes tai, gyda'r argyfwng sydd yn ein wynebu ar y funud.

**Cynllun Gweithredu Strategaeth Tai**.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi y bydd grant ar gael i bobol cymwys sydd wedi prynu tai sydd wedi bod yn wag am 12 mis, ac angen gwaith sylweddol arnynt i'w dod a nhw yn ôl i gyflwr y gall pobol fyw ynddynt. Mwy o wybodaeth am hyn ar wefan y Cyngor Sir.

**Yn Lleol**

**Cylchfan Brynrefail**

Mae peth oediad wedi bod yn y gwaith ar y gylchfan newydd yn Brynrefail. O be dwi'n ddallt roedd y Bwrdd Dŵr wedi penderfynu eu bod angen gwneud gwaith yno, ond wedi methu cadw at amserlen y contractwr sydd yn gwneud y gwaith ar y ffordd. Y dyddiad gorffen diweddaraf rwyf wedi gael yw canol mis Gorffennaf..

**Ceir heb drwydded ac MOT**

Wedi cael nifer o gwynion am geir wedi parcio ar waelod Allt Goch, heb trwydded ac MOT. Hefyd mae'n amlwg fod gwaith yn cael ei wneud ar rhai o'r ceir hefo hen ddarnau o'r ceir o gwmpas ac hên olew hefyd. Wedi adrodd ar hyn i swyddogion y Cyngor

**828. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

**O'r Cyngor**

Bu cyfarfodydd arbennig ac arferol o'r cyngor llawn ac roedd nifer o benodiadau gan gynnwys Dafydd Gibbard o Llanrug fel y Prif Weithredwr newydd; y Cyng. Seimon Glyn fel Cadeirydd y Cyngor, yn cymryd drosodd gan y Cyng. Edgar Owen; a'r Cyng. Elwyn Jones fel Is-Gadeirydd.

Cafwyd cyfle i ymuno â'r Cyng. Catrin Wager, Aelod Cabinet yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i gael clywed am gynlluniau'r adran i ymgynghori â'r cyhoedd am eu blaenoriaethau ym maes cymunedau glân a thaclus. Clywsom hefyd am y cynllun blodau gwyllt cynhenid a fydd yn fodd o annog tyfiant blodau gwyllt wrth ochr ein lonydd ble fo'n briodol a diogel. Anogwyd pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cŵn a baw cŵn sydd yn agored ar hyn o bryd.

Bu nifer i ohonom ymgasglu'n ddiogel y tu allan i siambr y cyngor er mwyn cyd-sefyll â phobl Palesteina.

Bu Gweithdy Craffu Gofal ble roedd blaenoriaethau craffu y cyngor ym maes gofal yn cael eu pennu am y cyfnod nesaf. Cafodd ystod eang o flaenoriaethau amrywiol eu nodi, gyda sylw arbennig i faterion yn ymwneud â tai a iechyd meddwl yn sgil y pandemig.

Mynychais gyfarfod o'r Pwyllgor Iaith ble y trafodwyd cynllun peilot y cyngor a fydd yn gwahodd adrannau'r cyngor i fanylu ar eu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith gan geisio hyrwyddo ac annog defnydd o'r Gymraeg ymhlith siaradwyr mamiaith a siaradwyr newydd fel ei gilydd. Trafodwyd hefyd bolisi trosglwyddiad iaith Llywodraeth Cymru, a nodwyd mai doeth fyddai aros tan i'r Sensws adrodd yn ôl cyn pennu polisi pendant.

**Yn Lleol.**

Mae pryderon yn cael eu mynegi yn gyson am gyflwr rhai o'r llwybrau yma yn Llanrug sydd yn dueddol o or-lifo pan mae cyfnod o law. Rwyf wedi codi hyn gyda'r swyddogion perthnasol.

Nodwyd pryder hefyd am 'pot holes' yng nghefn Rhos Rug ac am y broblem baw cŵn a baw ceffyl ar hyd palmentydd a llwybrau'r ardal.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**829. I ystyried cais gan glwb pêl droed Llanrug am ganiatâd i ddefnyddio caeau chwarae Nant y Glyn, Pwll Moelyn ac Allt Goch ar gyfer gweithgareddau pêl droed ar gyfer plant.**

**Penderfynwyd:** Caniatáu i glwb pêl droed ieuenctid Llanrug ddefnyddio'r caeau ar yr amod fod rheolau Cofid Cymdeithas Pêl-droed Cymru ac unrhyw reolau eraill yn cael eu glynu atynt

**830. I ystyried cais gan Menter Fachwen parthed potensial am fap ac arddangosfeydd hanesion Llanrug a Cwm y Glo**

**Penderfynwyd:** Gwahodd cynrychiolydd o Menter Fachwen i gyfarfod nesaf o'r cyngor i drafod y cynlluniau

**831. I dderbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol**.

**Penderfynwyd:** Derbyn y cyfrifon ac adroddiad yr archwiliwr mewnol a diolchwyd i'r clerc am ei waith

**832. I ystyried i diweddara ar giât i gae chwarae Dolafon ac i benderfynu ar y cam nesaf**

**Penderfynwyd:** Adroddwyd fod pris wedi dderbyn am y giât gan gwmni ar y wefan ond penderfynwyd holi am bris lleol

**833. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a)
**Rhif y Cais:** C21/0516/23/YA
**Math o Gais:** Hysbysiad ymlaen llaw (Amaeth/Coed)
**Bwriad:** Gosod pont/grid gwartheg/Siting of bridge/cattle grid.
**Ymgeisydd:** Mr John Patchett
**Cyfeiriad:** Tŷ Uchaf, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RY
**Cyfeirnod Grid:** 253468.25, 361245.78
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

b)

**Rhif y Cais:** C21/0499/23/RA
**Math o Gais:** Caniatad ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod
**Bwriad:** Cais ar gyfer rhyddhau amodau 3 (Llechi) a 4 (gorffeniad allanol) o ganiatad cynllunio cyfeirnod C21/0007/23/DT
**Ymgeisydd:** Francois Jack Otter
**Cyfeiriad:** Tan Rhiw, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DH
**Cyfeirnod Grid:** 254996.51, 362597.7
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

c)

**Rhif y Cais:** C21/0432/23/HT
**Math o Gais:** Hysbysiad ymlaen llaw (Telegyfathrebu)
**Bwriad:** Codi polyn 18.0m o uchder a chyfarpar offer.
**Asiant:** Grace O'Donnell (WHP Telecoms Ltd)
**Ymgeisydd:** Hutchison UK Ltd (Hutchison UK Ltd)
**Cyfeiriad:** Pafin Ger 37 Nant Y Glyn, Llanrug, Caernarfon, LL55 4JA
**Cyfeirnod Grid:** 253590.5, 363403.83
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** **x`** Llanrug